



FLVC

Flintshire Local Voluntary Council

CGLISFf

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint

Cefnogi, Hyrwyddo a Datblygu'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol

Adroddiad
Effaith Blynyddol
2022/23



EIN HYMDDIRIEDOLWYR o Ebrill 2022

Barbara Roberts Cadeirydd

Pip Perry MBE

Marjorie Thomson

John Hatton

Tim Byram

Peter Agnew

Ian Papworth

Karen Armstrong

David Wisinger

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint

CORLAN

Uned 3 Parc Busnes yr Wyddgrug

Ffordd Wrecsam

YR WYDDGRUG

Sir y Fflint CH7 1XP

☎ 01352 744000

✉ info@flvc.org.uk

www.flvc.org.uk

🐦 @FLVCnews 📘 flvcpage

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 3301204
Rhif Cofrestru Elusen 1062644

EIN STAFF

o Ebrill 2022

Ann Woods Prif Swyddog

Tessa Willow and Sarah Owens

Rheolwr Datblygu Trydydd Sector

(Gwasanaethau Craidd)

Katherine Hussey and Millie Boswell

Rheolwr Datblygu Trydydd Sector

(Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

Tîm Gweinyddiaeth

Nicola Valentine Uwch Weinyddydd

Karen Peters Gweinyddydd

Canolfan Gwirfoddolwyr

Claire Worrall a Debbie Long

Uwch Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Kris Kordiak Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Mallaidh Long Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Emily Morgan Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Cyllid a Llywodraethiant

Shaun Darlington Swyddog Datblygu Trydydd Sector

(Llywodraethiant)

Heather Hicks Swyddog Datblygu Trydydd Sector

(Cyllido)

Tîm Rhagnodi Cymdeithasol

Kate Howard Arweinydd Tîm Rhagnodi Cymdeithasol

Dafydd Gwynedd Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

Joanne Overton-Jones Rhagnodydd Cymdeithasol

(Hyb Cymorth Cynnar)

Nia Lloyd-Williams Rhagnodydd Cymdeithasol

(SPoA a Hyb Cymorth Cynnar)

Hannah Dovey Rhagnodydd Cymdeithasol

(Pobl Ifanc a Theuluoedd Ifanc)

Charlotte Anderton Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

Robyn Lee Rhagnodydd Cymdeithasol

(Hyb Cymorth Cynnar)

CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR FFLINT

Rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

CEFNDIR...

CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT yw'r sefydliad ymbarel a chymorth annibynnol ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir Fflint. Mae'n un o 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Nghymru a dechreuodd weithredu yn 1997. Mae'n elusen gofrestredig (1062644) ac yn gwmni cyfyngedig (3301204). Mae ganddo hyd at 15 o gyfarwyddwyr ymddiriedolwyr a ddaw yn bennaf o'r sector gwirfoddol lleol gyda 16 o staff, rhan-amser a llawn-amser. Ers 2008 bu'n seiliedig yn CORLAN ym Mharc Busnes yr Wyddgrug. Mae ganddo dros 185 aelod a chaiff gyllid o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Teuluoedd yn Gyntaf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rydym yn rhan o seilwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Y nod a rannwn yw galluogi'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ledled Cymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac i'r dyfodol.

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn rhwydwaith o sefydliadau cymorth ar gyfer yr holl drydydd sector yng Nghymru. Mae'n cynnwys 19 o gyrff cymorth lleol a rhanbarthol ar draws Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol a'r corff cefnogi cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Rydym yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau trydydd sector i ddynodi a thrin yr hyn sy'n bwysig iddynt. I gyflawni'r nod a rannwn rydym yn cydweithio gyda phartneriaid allweddol eraill ar draws y trydydd sector, y sector cyhoeddus, busnes, ymchwil a chyllidwyr.



Mae gennym bedwar piler o weithgaredd sy'n ffurfio ein cynnig cynhwysfawr, sef:

- Gwirfoddoli
- Llywodraethiant da
- Cyllid cynaliadwy
- Ymgysylltu a dylanwadu



Mae ffocws eang ein gwaith ar themâu cyffredin:

- Gwybodaeth a chyngor
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Llunio, dylanwadu ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol a chydnerthedd y sector
- Codi proffil y sector

ADRODDIAD CADEIRYDD A PHRIF SWYDDOG CYNGOR GWEITHREDU GWIRFODDOL SIR FFLINT

Bu Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn hyrwyddo, datblygu a chefnogi gweithgaredd gwirfoddol a chymunedol dros 25 mlynedd. Fel tîm, ymfalchiwn mewn ymateb i'r newidiadau mewn anghenion cymunedol a cheisio pob cyfle i wrando ar a dysgu gan y rhai yr ydym yma i'w cefnogi.

Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol o werth cynyddol i fywydau pobl yn y cyfnod heriol iawn hwn. Fel tîm staff ac ymddiriedolwyr, cawn ein synnu (bob dydd) gan angerdd ac ymroddiad grwpiau gwirfoddol a chymunedol a'r gwahaniaeth a wnaiff ein sector i'n cymunedau lleol.

P'un ai ydym wedi helpu grwpiau i recriwio neu gefnogi gwirfoddolwyr, i gael mynediad i gyllid, i ddarparu cefnogaeth ar gyfer ymddiriedolwyr, i rwydweithio ac ymgysylltu gyda chynghreiriaid, dysgwn gymaint am sut mae'r Trydydd Sector yn ymateb i anghenion preswylwyr Sir Fflint. Ni ellir gorbwysleisio gwerth, hyblygrwydd a gallu'r sector gwirfoddol i addasu.

Fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol y llynedd, rydym yn parhau i gydnabod yn union pa mor bwysig yw cyfeillgarwch a rhyngweithio dynol i'n llesiant. Gwnawn lai a llai o ddefnydd o Teams a Zoom, ac mae bod yn yr ystafell gyda'n cydweithwyr, gwrando, ymateb a chefnogi ein gilydd yn cynhesu'r galon. Mae gweithio hybrid yn gweithio'n dda i ni – gan sicrhau effeithiolrwydd a hyblygrwydd – ond rydym eisiau cwrdd â chi wyneb i wyneb. Anfonwch wahoddiad atom i ddod i gwrdd â chi neu galwch heibio'n swyddfa yn Corlan i gael sgwrs.

Fel sefydliad rydym yn awyddus i gynyddu i'r eithaf ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn a rydym yn adnewyddu ein Statws Elusen Ddibynadwy eleni (yn flaenorol Safon Ansawdd PQASSO). Diolch i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, sy'n parhau i lywio gwaith Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint.

Croeso i'n hymddiriedolwyr newydd Ian, Karen a Dave a ymunodd yn CCB y llynedd a chroeso i'n haelodau newydd o staff, Katherine, Tessa ac Emily.

Mae cymaint o amrywiaeth yn ein gwaith, ond i gyd gyda'r un bwriad. I helpu, galluogi a dathlu gwaith gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol i wella ein bywydau. Rydym eisiau gwneud mwy a rydym eisiau parhau i wneud hynny yn dda. Diolch i aelodau Bwrdd a thîm staff Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint am eu hymroddiad i'n gwaith.

A diolch i chi am eich cefnogaeth i Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint ac am roi amser i ddarllen ein Hadroddiad Blynyddol.

Gyda diolch

Barbara Roberts Cadeirydd
Ann Woods Prif Swyddog

☎ 01352 744028

✉ ann.woods@flvc.org.uk



Rebecca Evans AS, Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn cwrrd â chynrychiolwyr y Bwrdd Gwasanaethau Lleol

Cynhadledd Lab Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru 2023



Emily, Mallaidh, Carol a Phil yn trafod ein cefnogaeth ar gyfer Gwirfoddolwyr



Helen Stephenson CBE, Prif Swyddog Gweithredol y Comisiwn Elusennau yn cwrrd â chydweithwyr y Trydydd Sector yn Sir Fflin



Chris Buchan, Pennaeth Cymunedau a Pholisi Trydydd Sector Llywodraeth Cymru yn ymuno â chydweithwyr yng Nghyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint



Cyfarfod rhwydwaith ar gyfer mudiadau sy'n cefnogi Plant a Phobl Ifanc





“

Mae gwirfoddoli wedi fy ngalluogi i ddod yn berson llawer mwy hyderus, yn arbennig pan ddaw i siarad mewn grwpiau mawr a chynnig syniadau. Mae hefyd wedi rhoi sgiliau arweinyddiaeth gwych i mi ac wedi dangos sut i fod yn aelod da o dîm. Rwyf wedi gwneud ffrindiau oes o fod yn rhan o'r grŵp yma.

”

GWIRFODDOLI


Mae ein tîm Canolfan Gwirfoddolwyr yma i:

- Helpu pobl leol i ganfod y rolau gwirfoddoli cywir iddynt sy'n cyfateb â'u diddordebau, argaeledd a sgiliau;
- Hyrwyddo arfer da ac arloesedd mewn gwirfoddoli – i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan a chynyddu effaith gwirfoddoli;
- Rhoi gwybodaeth, canllawiau a chyfeirio – ar gyfer unigolion i wirfoddoli ac i sefydliadau ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli ansawdd uchel;
- Rheoli cronfa ddata o gyfleoedd gwirfoddoli – ar gyfer trefnu a rheoli gwirfoddoli;
- Hwyluso rhwydweithiau a hyfforddiant – ar gyfer dysgu, rhannu a gwella profiad gwirfoddol yn barhaol;
- Trefnu digwyddiadau, hyrwyddo a chydabyddiaeth - i annog a dathlu llwyddiant gwirfoddolwyr i lesiant Cymru;
- Cefnogi sefydliadau i gael mynediad i gyllid yn gysylltiedig â datblygu gwirfoddoli.

Bu rhai newidiadau ym mhersonél y Tîm Canolfan Gwirfoddoli yn ystod y flwyddyn ac fe wnaeth barhau i wneud gwaith rhagorol yn cefnogi ac annog pobl i gymryd rhan mewn gwirfoddoli. Fe wnaeth y tîm barhau i ddatblygu'r prosiect gwirfoddoli â chymorth, gan gyflenwi gweithgareddau mewn amrywiaeth o safleoedd a dynodi ffyrdd newydd i alluogi pobl i gymryd rhan mewn sesiynau gwirfoddoli “blasu” a chael cymhwyster drwy eu gwirfoddoli.

Beth wnaethom ni ei gyflawni?

Cafodd y gerdd hon ei
hysgrifennu gan rywun a
gymerodd ran yn un o'r
prosiectau gwirfoddoli â
chymorth ac mae'n dangos
yr effaith y gall helpu eraill
ei gael:



Dros y blynyddoedd
cafodd 497 o bobl leol
gefnogaeth i gael
mynediad i gyfleoedd
gwirfoddoli



Cafodd dros 100 o grwpiau a mudiadau yn Sir Fflint eu cefnogi ym mhob agwedd o reoli gwirfoddolwyr, yn amrywio o grwpiau bach a gaiff eu rhedeg gan wirfoddolwyr i sefydliadau mawr sy'n darparu gwasanaethau

Cynhaliwyd pump
cyfarfod rhwydwaith
i drefnwyr
gwirfoddolwyr yn
ystod y flwyddyn,
gyda 47 yn mynychu



Mynychodd tîm y Ganolfan
Gwirfoddolwyr 66
digwyddiad a chyfarfod i
hyrwyddo gwirfoddoli a
chydweithio gydag eraill ar
draws Sir Flint a thu hwnt



Fe wnaeth ein prosiectau gwirfoddoli â chymorth alluogi 93 o bobl gydag anghenion cymorth penodol i gymryd rhan mewn sesiynau gwirfoddoli "blasu" ar draws Sir y Fflint ac i gael mynediad i gymhwyster drwy eu gwirfoddoli

“

Rydych yn arweinydd cwrs rhagorol, diolch am bopeth a wnaethoch i arwain ac ysbrydoli ein dysgwyr – byddant bob amser yn cofio'r cwrs a'r parch y gwnaethoch ddangos parch atynt a chodi eu hysbryd.

"

LLYWODRAETHIANT DA

Nod gyffredinol gwaith TSSW ar lywodraethiant da yw i'r rhai sy'n ymwneud â rhedeg cyrff trydydd sector yn effeithiol i arwain eu sefydliadau yn effeithiol a chynnal safonau da o lywodraethiant

Mae ein deilliannau ar gyfer rhai sy'n ymwneud â chyrff trydydd sector i:

- gael mynediad i wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar lywodraethiant da;
- cynyddu hyder wrth arwain eu sefydliadau;
- gwella eu gallu i recriwtio a chadw ymddiriedolwyr medrus;
- bod â mwy o sgiliau i arwain eu sefydliadau.

Beth wnaethom ni ei gyflawni?

Un o uchafbwyntiau'r Cyngor Gwirfoddol Lleol yn 2022-23 oedd trafodaeth bwrdd crwn y gwnaethom ei hwyluso yn ystod Wythnos Elusennau Cymru ar gyfer staff uwch ac ymddiriedolwyr o sefydliadau cymunedol lleol i gwrdd â Helen Stephenson, Prif Swyddog Gweithredol Comisiwn yr Elusen.

Fel rhan o'n gwaith parhaus i gefnogi safleoedd a gwasanaethau i ail-sefydlu ar ôl cyfnodau clo COVID, fe wnaethom weithio gyda Cadwyn Clwyd a Litegreen (ymgyngorwyr ynni) i ddarparu asesiadau ynni ar gyfer safleoedd cymunedol a chynghor ar sut i ostwng defnydd ynni, sy'n neilltuo o berthnasol gyda'r cynnydd mawr cyfredol mewn prisiau ynni.



Cafodd ein gwefan 19,500 ymwelydd a chafodd gwybodaeth ei ledaenu i gannoedd o sefydliadau lleol ac unigolion drwy ein e-fwletinau a chylchlythyrau



Cafodd 175 o sefydliadau eu cefnogi ar faterion yn ymwneud â llywodraethiant ac yn rhedeg eu sefydliad

Derbyniwyd ac atebwyd dros 500 o ymholiadau ymddiriedolwyr



“

Roeddwn am anfon e-bost atoch a diolch yn fawr iawn am eich holl help yng nghyfarfod yr wythnos ddiwethaf. Rydyn ni'n awr yn gwybod lle i ddechrau wrth symud ymlaen.

”

CYLLID CYNALIADWY

Mae ein gwasanaeth cymorth cyllid yn anelu i helpu

- Sefydliadau trydydd sector i fod yn effeithiol wrth sicrhau a chynhyrchu'r adnoddau maent eu hangen i oroesi a thyfu
- Cyrff trydydd sector i fod yn gydnerth a bod â'r sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd i gynnal eu sefydliadau.

Beth wnaethom ni gyflawni?

Wrth i gostau byw wneud bywyd yn fwy a mwy heriol ar gyfer y rhan fwyaf ohonom, mae staff y Cyngor Gwirfoddol Lleol yn parhau i ddarparu gwybodaeth gywir a chyfredol ar ffynonellau cyllid ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol a chynnig cymorth i'w helpu i gael mynediad i'r cronfeydd hyn.

Cynhaliwyd cyfres o gymorthfeydd cyllid mewn gwahanol rannau o Sir Fflint, gan gynnig apwyntiadau un-i-un y gellir eu harchebu ymlaen llaw gyda swyddogion grant gyda'r Loteri Genedlaethol, Cynllun Cymunedau Treth Gwaredu Tirlenwi ac eraill. Bu'r ymateb i'r sesiynau hyn yn gadarnhaol iawn ac mae mwy ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda sesiynau "Cwrdd â'r cyllidwyr" ar-lein ac wyneb i wyneb.



Fe wnaethom gefnogi 225 o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol lleol i gael mynediad i fwy na £1,400,000 o nifer o ffynonellau cyllid

Cynhaliwyd digwyddiadau Cwrdd â'r Cyllidwyr gyda

- Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Sefydliad Cymunedol Cymru
- Cronfa Treth Gwaredu Tirlenwi
- Chwaraeon Cymru
- Sefydliad Yapp
- Sefydliad Moondance
- Sefydliad Burns Price
- Codi arian yn rhwydd
- Rhoi lleol



“

Roedd eich help gyda grantiau y llynedd yn hollbwysig i lwyddiant ein prosiect a byddem yn gwirioneddol werthfawrogi eich cyngor eto eleni.

”



Fe wnaethom weinyddu pump cronfa grant (dyfarnu cyfanswm o 72 grantiau unigol)

- Dyfarnodd Cist Gymunedol Cyngor Sir y Fflint 38 grant yn gyfanswm o £31,145
- Dyfarnodd Grantiau Ieuenctid Sir y Flint chwe grant, yn gyfanswm o £5,450
- Dyfarnodd Cronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol Sir y Fflint 10 grant yn gyfanswm o £22,691
- Dyfarnodd Grant Haf Hwyl £10,000 rhwng 9 grŵp
- Dyfarnodd Platiau Plant 9,000 i bump grŵp (bwyta'n iach i blant)

YMGYSYLLTU a DYLANWADU



Fel aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru gweithiwn i sicrhau bod

- Cyrff cyhoeddus yn cydnabod gwerth a chyfraniad cyfredol a darpar gyfraniad sefydliadau Trydydd Sector.
- Sefydliadau Trydydd Sector â rôl weithgar wrth ymgysylltu a gweithio gyda phobl a chymunedau, yn cynnwys grwpiau nas clywir yn aml;
- Mae gan sefydliadau Trydydd Sector y sgiliau a'r galluedd i ddylanwadu a llunio polisi yn effeithiol ar bob lefel;
- Mae sefydliadau Trydydd Sector yn ymgysylltu'n ystyrlon gyda'i gilydd ac yn eu tro gyda chyrrff cyhoeddus mewn datblygu polisi a chydgyhyrchu gwasanaeth;
- Lleisiau unigolion a grwpiau yn llywio ac yn dylanwadu ar ddatblygu polisi, cynllunio a darpariaeth gwasanaeth:

“

Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fynwy yn bartner gwych mewn nifer o feysydd gwaith a phrosiectau. Rwy'n wirioneddol mwynhau'r cydweithio ac mae'r tîm yn rhagorol gydag agwedd gallu gwneud ac angerdd ar gyfer pobl a newid cadarnhaol.

”

Yr hyn a gyflawnwyd

- Fe wnaethom gwrdd yn rheolaidd gyda phartneriaid Statudol a Thrydydd Sector fel rhan o bartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Mae Prif Swyddog y Cyngor Gwirfoddol Lleol yn cynrycholi'r Trydydd Sector ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn 2023 daeth yn Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint ac Wrecsam (unig Gadeirydd anstatudol unrhyw Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru)
- Rydym yn aelodau o Grŵp Llywio Adferiad Economaidd Sir y Fflint, sydd wedi goruchwylio asesiad ceisiadau i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Sir y Fflint
- Cynrychiolwn y sector yng Ngrŵp Rhanddeiliaid Cynllun Creu Lleoedd Sir y Fflint (Gwasanaethau gyda Ffocws ar Bobl)
- Rydym wedi gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddylanwadu ar ymarfer caffael ar gyfer dull aml-asiantaeth ar Wasanaethau Cyhoeddus
- Rydym wedi arwain ar waith fel rhan o Ffrydiau Gwaith 'Cydnherthedd Cymunedol' Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd Sir y Fflint a Wrecsam
- Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid TSSW ar y Strategaeth Dysgu a Datblygu Cenedlaethol, ffrwd gwaith Effaith a Diogelu Cymuned Ymarfer
- Cynrychiolwn CVC Gogledd Cymru ar y Fforwm Cydnherthedd Lleol (Cynllunio Argyfwng) a mynychwn is-grŵp Cymorth Dyngarol a Gwirfoddoli Gogledd Cymru
- Rydym yn cwrdd yn rheolaidd gyda grwpiau cymunedol newydd a phresennol a sefydliadau elusennol i'w cysylltu gyda'r sector ehangach a phartneriaid statudol.

IECHYD a GOFAL CYMDEITHASOL

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyllido swyddi allweddol Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'r rôl yn darparu dolen strategol allweddol rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a chyrff Trydydd Sector. Mae gan y Cyngor Gwirfoddol Lleol hefyd tîm Rhagnodi Cymdeithasol, sy'n cydweithio gyda chydweithwyr yn y sector statudol i gysylltu preswylwyr Sir y Fflint gyda gwasanaethau iechyd a llesiant seiliedig yn y gymuned.

Yn 2022/23 fe wnaethom



Cyfrannu at bartneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

Mewn cysylltiad gyda AVOW yn Wrecsam, cynhaliwn gyfarfodydd Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda hyd at 50 yn mynychu, gan ddod â darparwyr gwasanaeth y trydydd sector a statudol ynghyd i ddysgu, rhannu ac ymgynghori ar strategaethau aml-asiantaeth allweddol



Rydym hefyd yn rhedeg rhwydwaith ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn Sir y Fflint a fynychir gan hyd at 50 o gyfranogwyr gan gynnig cyfleoedd rhwydweithio a chydweithio



Yn y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 fe wnaeth tîm rhagnodi cymdeithasol oedolion gefnogi 1503 o unigolion a chefnogodd y tîm plant a phobl ifanc 287 teuluoedd



Mae ein rhagnodwyr cymdeithasol yno i wrando ar yr hyn sy'n bwysig i unigolion a'u cyfeirio at y gefnogaeth gywir. Mae unigolion y siaradwn gyda nhw yn



“

O'r galon anfonaf lawer iawn o ddiolch atoch.”

“Diolch yn fawr am yr holl wybodaeth yma. Rwy'n ddiolchgar iawn, ac rwy'n siwr y bydd y cleient yn ddiolchgar iawn hefyd.”


“Buoch yn gymaint o help, diolch yn fawr i chi. Fyddwn i ddim wedi mynd at yr help hebddoch chi, a dylech fod yn falch o'r gwaith a wnewch, roedd yn werthfawr tu hwnt. Rwyf wrth fy modd.

”

CRYNODEB CYFRIFON

Am y flwyddyn yn diwedd
31 Mawrth 2023

Sut y caiff y Cyngor Gwirfoddol Lleol ei gyllido



Cyfanswm lwm yn ystod 2022/23 **£592,272**

Gwariant 2021/22 a 2022/23

Costau Staff
Costau Safle
Dibrisiant
Treuliau Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol
Ffioedd Proffesiynol
Gwirfoddolwyr a Hyfforddiant
Contractwyr ac Ymgynghorwyr
Yswiriant ac Indemnïaeth
Costau Llywodraethiant
Alldaliadau Grant

CYFANSWM

2023

448,155
75,773
1,277
1,984
10,260
14,635
343
3,662
7,681
78,286

£642,056

2022

411,417
66,350
2,481
1,790
9,454
3,119
11,362
2,287
4,445
237,652

£750,357

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2022/23 **£642,056**